# Gofalu am y gaseg a’r ebol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys gofalu am y gaseg a'r ebol. Dylech allu monitro iechyd yr ebol newydd-anedig a'r gaseg, nodi unrhyw broblemau iechyd, cymryd y camau priodol mewn ymateb i broblemau iechyd a gweithredu gofal iechyd fel mater o drefn.

Dylech allu cynnal dulliau priodol o ddiddyfnu, gwirio iechyd y ceffylau ar ôl diddyfnu a gwirio iechyd stoc ifanc.

Dylech fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. gofalu am a chynnal iechyd y gaseg a'r ebol
3. nodi unrhyw broblemau iechyd gyda'r gaseg a'r ebol a chymryd y camau priodol
4. sefydlu a gweithredu trefn ymdrin â'r gaseg a'r ebol o ddydd i ddydd
5. cynllunio a gweithredu gofal iechyd fel mater o drefn ar gyfer y gaseg a'r ebol, yn cynnwys; rheoli parasitiaid, brechu a gofal y traed
6. cyflwyno'r gaseg a'r ebol i bori, yn unol ag arfer da presennol y diwydiant
7. sefydlu a gweithredu dulliau priodol o ddiddyfnu'r ebol
8. monitro a chynnal iechyd a lles y gaseg a'r ebol ar ôl ei ddiddyfnu
9. nodi pryd i gael cyngor a chymorth arbenigol
10. gweithredu rhaglenni maethu a gofalu am ebolion amddifad lle y bo'n briodol
11. cynnal lefelau addas o hylendid a bioddiogelwch
12. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i adnabod, trin a chymryd y camau priodol mewn ymateb i broblemau iechyd yn ymwneud â'r gaseg a'r ebol
3. pwysigrwydd colostrwm a sut i sicrhau bod yr ebol wedi cael digon ohono
4. gweithdrefnau rheoli ar gyfer aelodau wedi eu hanffurfio
5. llawdriniaeth caslick
6. gweithdrefnau maethu a sut i ofalu am ebol amddifad
7. amseriad a dulliau diddyfnu ar gyfer grwpiau, unigolion, ebolion wedi eu llocio a rhai mewn cae bychan
8. y problemau a allai effeithio ar y gaseg a'r ebol ar ôl diddyfnu
9. problemau datblygiadol mewn ebolion ifanc sy'n tyfu
10. pryd a sut i gael cyngor a chymorth gan arbenigwyr
11. sut i gadw cofnodion priodol
12. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth ofalu am y gaseg a'r ebol ar ôl bwrw ebol, a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
13. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
14. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Gofalu am y gaseg a’r ebol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq329 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; caseg; ebol |